# Ymateb Mudiad Meithrin i Ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Chweched Senedd.

Croesawn y cyfle i gyflwyno materion i'ch sylw sy'n berthnasol i'ch cylch gorchwyl fel Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Dymunwn yn dda i chi fel pwyllgor wrth i chi graffu ar y meysydd yma yn ystod y chweched senedd.

Yr hyn sy'n gwneud Mudiad Meithrin yn wahanol ac unigryw yw ein bod yn angerddol am ddarparu a hwyluso gofal plant ac addysg gynnar o ansawdd yn Gymraeg – dyma yw ein priod waith a'n pennaf gymhelliant.

Ers 1971, bu Mudiad Meithrin yn gweithredu'n ymarferol er mwyn gwireddu ei egwyddorion craidd a sicrhau fod plant bach Cymru yn gallu dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Credwn fod y Gymraeg yn perthyn i bawb a'i bod yn gyfrwng i uno'n cenedl amrywiol.

**Effaith Pandemig Covid-19**

Mae'r pandemig wedi amlygu llu o rwystredigaethau gyda gwahanol gyfundrefnau, traddodiadau a systemau. Mae wedi amlygu pa mor fregus yw nifer o wasanaethau amrywiol ac nid yw darpariaeth gofal plant yn eithriad. Gyda hyn, mae mwy fyth o her yn wynebu darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn modd hwylus, hawdd a hygyrch i bobl yn amrywiol gymunedau Cymru. Rhaid smud tuag at sicrhau fod pob plentyn yn gallu cael profiad Cylch Meithrin ac addysg Gymraeg gan fod rhwystrau anfwriadol ac ymarferol yn parhau i wynebu pobl mewn rhai cymunedau.

Gwyddom fod Cylchoedd Meithrin yn wynebu her ariannol ddigynsail yn ystod y cyfnod hwn. Bu her ariannol yn rhan annatod o brofiad nifer o Gylchoedd Meithrin yn hanesyddol gyda phwysau parhaus ar ymdrechion codi arian gan bwyllgorau a charedigion. Ers sefydlu y Cynnig Gofal Plant (30 awr) daeth sefydlogrwydd i sefyllfa ariannol sawl lleoliad. Ergyd ddwbl felly fu effaith ariannol y pandemig ar golli incwm gan rieni a theuluoedd a cholli ffynhonnell o gynhaliaeth ariannol drwy golli grantiau yn ogystal. Er bod y cynllun saib (CJRS) wedi bod yn allweddol i barhau i gyflogi staff yn ystod y cyfnod, prin iawn oedd y grantiau penodol oedd ar gael i'r sector gofal plant (yn wahanol i amrywiol sectorau eraill). Bu'n rhaid i nifer o leoliadau dynnu ar arian wrth gefn er mwyn parhau i dalu rhent a gorbenion eraill. Dyrannodd Mudiad Meithrin grantiau argyfwng i leoliadau oedd yn methu tynnu ar unrhyw gymorth o unrhyw ffynhonnell amgen.

Gwyddom o brofiad fod angen cydnabod mor werthfawr a chyfoethog ydi gweithio yn y blynyddoedd cynnar a chydbwyso hynny gyda rhai o'r heriau dyddiol sy'n wynebu'r gweithlu. Mae'r heriau hyn yn cynnwys diffyg cydnabyddiaeth a pharch, diffyg tâl digonol a llwyth gwaith sy'n cynyddu gyda gofynion gwahanol raglenni a chynlluniau gan gyllidwyr fel Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Ar yr un pryd, dangosodd y cyfnod clo fod y boblogaeth yn wir werthfawrogol o waith gweithwyr allweddol gan gynnwys y sawl fu'n gofalu am blant bach yn ystod y cyfnod.

Mae Cylchoedd Meithrin – fel adnoddau cymunedol allweddol – yn dueddol o gael eu rheoli gan bwyllgorau rheoli gwirfoddol a nhw sy'n gyfrifol am amrywiol agweddau cyfreithiol o fod yn gyflogwr i fod yn Unigolyn Cyfrifol neu'n Berson Cofrestredig. Oni bai am y gwirfoddolwyr cefnogol a brwdfrydig hyn, fyddai dim modd i Gylchoedd Meithrin weithredu'n ddiogel ac fe fyddai'r cyswllt pwysig gyda'r gymuned yn cael ei golli. Gwyddom hefyd mewn cyfnod cythryblus o bryder, ansicrwydd ac ofn fod unigolion yn teimlo pwysau cynyddol ac weithiau'n awyddus i hepgor eu cyfrifoldebau.

Dyma'r cymorth a fyddai o fudd i'r sector mewn cyfnod o adferiad yn dilyn y pandemic:

- Gweithio at un gyfundrefn genedlaethol gofal plant ac addysg gynnar o ran cyllido, arolygu ac ansawdd gan sicrhau fod rhaglenni trechu tlodi wedi eu hanelu at blant ar gael yn Gymraeg. Galwn am normaleiddio a phrif-ffrydio argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, gydag ystyriaeth benodol i sicrhau ehangu a chynyddu canran y llefydd Cymraeg o fewn cynlluniau penodol, megis lleoliadau Dechrau'n Deg, i lefelau sydd o leiaf yn gymharus a'r nifer o blant sydd mewn addysg Gymraeg ac yn cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn 2 yn yr ysgol gynradd (gosodwyd targed o 24% o blant i gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwydyn 2 erbyn 2020-21).
- Darparu'r Cynnig Gofal Plant (30 awr) i blant 2 flwydd oed ar gyfradd cyllido uwch er mwyn ystyried graddfa cyflogau staff, gan anelu at ehangu i blant 12 mis+ o 2026 ymlaen. Credwn y byddai'r buddsoddiad yn gymorth i roi cyfleoedd chwarae i blant a amddifadwyd o gyfleon arferol o ddatblygu'n gymdeithasol dros y 18 mis diwethaf. Yn ogystal byddai'n fodd o gynnig sefydlogrwydd ariannol i sector sy'n dal i brofi ansicrwydd er wedi profi ei werth fel rhan o'r economi sylfaenol.
- Buddsoddi yng nghynllun trochi 'Croesi'r Bont' a'i addasu i'w gynnig fel pecyn hyfforddiant i'r sector statudol cynradd. Rydym wedi gweld llwyddiant y cynllun wrth i blant gaffael y Gymraeg yn ein lleoliadau, a byddai ymestyn y cynllun yn fodd o gefnogi plant a gollodd gyfnodau o addysg i gadarnhau eu gafael a'u hyder yn yr Iaith. (??)

**Materion o flaenoriaeth**

- Cynnwys Cymraeg yn ddigidol

Amlygodd y pandemig bylchau yng nghynnwys digidol cyfrwng Cymraeg, ac fe aeth Mudiad Meithrin at ii gynnig cefnigaeth i deuluoedd drwy gynnig darpariaeth i gynnal cysylltiad plant â'r Gymraeg. O ganlyniad credwn bod angen buddsoddi mewn darpariaeth ar-lein yn y blynyddoedd cynnar gyda rhaglenni a chynlluniau gwahanol fel 'Cymraeg i Blant', Clwb Cylch a Miri Meithrin er mwyn sicrhau fod darpariaeth Gymraeg yn cyrraedd cartrefi ble na chlywir y Gymraeg.

- Trosglwyddo iaith

Dyfnhau gweithgarwch ym maes trosglwyddo iaith gan gefnogi rhieni a'r teulu estynedig trwy raglenni amrywiol fel 'Cymraeg i Blant', 'Clwb Cwtsh' a 'Cymraeg yn y Cartref'.

- Gwrth-hiliaeth

Mae Mudiad Meithrin yn ymrwymedig i fod yn fwy na mudiad sy'n gynhwysol ond mudiad sy'n gweithredu egwyddorion gwrth-hiliaeth er mwyn sicrhau fod y nod o gynnig y Gymraeg i bawb o bob cefndir yn un sydd wedi ei gwreiddio yn ein harferion. Credwn fod angen ymdrech strategol i greu mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n Ddu, Asiaidd neu'n Ethnig Leiafrifol a chynyddu mynediad cymunedau lleiafrifol i weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

- Sbarduno darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gyda chyfraniad ariannol ychwanegol i leoliadau Cymraeg

Credwn dylai bob plentyn gael yr hawl i fod yn siaradwr Cymraeg drwy gael addysg cyfrwng Cymraeg. Nid oes gennym fframwaith gyfreithiol effeithiol i sicrhau ein bod yn raddol weithio at fynediad a darpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn yng Nghymru. Cefnogwn fwriad Llywodraet Cymru i greu Deddf Addysg Gymraeg a fydd yn sicrhau cynllunio darpariaeth a thwf ar draws yr holl gyfundrefn addysg yng Nghymru.

**Effaith Brexit**

- Perthnasau rhyngwladol

Gellid gwella cydweithrediad a chyd gefnogaeth ar lefel rhyngwladol rhwng chwaer wledydd sydd hefyd yn gweithio i hybu a thyfu ieithoedd lleiafrifol. Ofnwn mae un o sgil effeithiau BREXIT fydd colled mewn cyfleodd i ddysgu a chefnogi ein gilydd. Hoffen ni weld rhaglen o gyfnewid arferion a dysg rhwng gweithluoedd gofal plant mewn gwledydd fel Gwlad y Basg, Catalunya, Llydaw, Cernyw, Iwerddon ac ati.

Cyswllt: Menna Machreth (menna.machreth@meithrin.cymru)